



Government  
Communication  
Service

# Cyfathrebu'n Ddwylieithog:

Arweiniad i adrannau Llywodraeth y Deyrnas  
Unedig ar gyfer cyfathrebu yng Nghymru



UK Government  
Llywodraeth y DU

## Cynnwys

<a href="#"><u>Cyflwyniad</u></a>	3
<a href="#"><u>Rhagair</u></a>	4
<a href="#"><u>Ymgynghoriadau</u></a>	6
<a href="#"><u>Digwyddiadau</u></a>	7
<a href="#"><u>Ymgyrchoedd</u></a>	9
• <a href="#"><u>Teiposod a dylunio</u></a>	9
• <a href="#"><u>Hysbysebu ac arwyddion</u></a>	11
• <a href="#"><u>Cynnwys gwefan GOV.UK</u></a>	12
• <a href="#"><u>Datganiadau i'r wasg ac ymdrin â'r cyfryngau</u></a>	12
<a href="#"><u>Cyfryngau cymdeithasol</u></a>	14
<a href="#"><u>Astudiaethau achos</u></a>	18
<a href="#"><u>Gwerthuso gohebiaeth ddwyieithog</u></a>	19
<a href="#"><u>Offer ac adnoddau defnyddiol</u></a>	20

## Cyflwyniad

Bwriad yr arweiniad hwn yw rhoi cyngor cyffredinol i chi wrth gynllunio a chyflawni gweithgarwch cyfathrebu dwyieithog sydd wedi ei anelu at siaradwyr Cymraeg – bydd y mwyafrif yn byw yng Nghymru ond mae'n bosibl y bydd rhai yn byw yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Mae gan sefydliadau sy'n wynebu'r cyhoedd ddyletswydd i gynrychioli'r cynulleidfaoedd maen nhw'n eu gwasanaethu, a chynlluniwyd yr arweiniad hwn gydag adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu sefydliadau cysylltiol mewn golwg.

Nid yw'r cyngor hwn yn hollgynhwysol o bell ffordd, ac ni ddylid ei ystyried ar wahân i ystyriaethau eraill, ond dylai fod yn fan cychwyn defnyddiol i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu yng Nghymru neu sy'n targedu cynulleidfaoedd Cymraeg.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae rhai sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU a sefydliadau eraill yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg o ganlyniad i'r Ddeddf, tra mae eraill yn gweithredu safonau o ganlyniad i Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r canllaw yma'n cynnwys argymhellion ac arferion da, ond dylai pob adran neu asiantaeth sicrhau eu bod o leiaf yn cydymffurfio ag ymrwymadau penodol cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain. Mae'n bwysig bod timau cyfathrebu yn ymgynghori â'r rheini sydd yn gyfrifol am eu cynllun iaith Gymraeg ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig yn y lle cyntaf.

Mae'n bwysig bod timau cyfathrebu yn ymgynghori â'r unigolyn sy'n gyfrifol am eu cynllun iaith Gymraeg ac unrhyw ddogfen berthnasol yn y lle cyntaf.

Datblygwyd yr arweiniad ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru, Swyddfa Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCS) gyda mewnbwn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gweledigaeth y Comisiynydd yw creu Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae hon yn weledigaeth sy'n cael ei rhannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru, ac mae'r arweiniad hwn wedi ei ddylunio i'ch cynorthwyo chi i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, yn glywadwy, ac uwchlaw popeth yn hygyrch.

## Rhagair gan Alex Aiken, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu Llywodraeth y DU



Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae cyfansoddiad y Deyrnas Unedig wedi newid mewn modd heb ei debyg. Rydym wedi nodi 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru a'r Alban, ac rydym wedi gweld effaith gadarnhaol pob llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn dwyn ei gilydd i gyfrif.

Ond er bod datganoli'n parhau i esblygu a phwerau'n cael eu trosglwyddo, mae'n bwysicach nag erioed i ni greu cyfathrebiadau effeithiol. Mae dyletswydd arnom i helpu unigolion, busnesau a chymunedau i ddeall sut gallant fanteisio i'r eithaf ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu cryfhau ein systemau democrataidd, gwella ansawdd ein hallbwn i ddiwallu anghenion amrywiol ein cynulleidfaoedd a chyflawni ar gyfer cymunedau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i wneud hynny. Byddant yn sicrhau bod cyfathrebwyr yn darparu llwyfan i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, gan alluogi pawb yng Nghymru i ymgysylltu â gwaith adrannau'r llywodraeth ac ymateb iddo.

Byddant yn codi safon ein gwaith, gan wneud yn siŵr ein bod yn parchu hawliau'r holl ddinasyddion a'r ieithoedd sy'n rhan o undeb y Deyrnas Unedig.

Byddant yn ein galluogi hefyd i sicrhau bod gwaith Llywodraeth y DU yn cael ei ddeall a'n bod yn gallu mynd i'r afael â gwybodaeth anghywir am y rôl rydym yn ei chwarae.

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r canllawiau hyn. Gobeithio y byddant yn cefnogi'r gwaith rydych chi'n ei wneud i wasanaethu ein gwlad ac i ateb y galw yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'ASA'.

## Rhagair gan Ashok Ahir, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ar gyfer Llywodraeth y DU yng Nghymru



Fel y gŵyr pob un ohonom sy'n gweithio mewn cyfathrebu cyhoeddus, os ydym am gyfleu neges, newid ymddygiadau neu ddylanwadu ar randdeiliaid, ymddiriedolaeth yw popeth. Mae'r iaith a ddefnyddiwn wrth ymgysylltu ag unigolion, busnesau a grwpiau yn elfen allweddol i wneud y cysylltiad hwnnw.

Mae'r iaith Gymraeg ar gyfer llawer o bobl yng Nghymru yn rhan annatod o'u hunaniaeth, nid yn unig ar gyfer siaradwyr rhugl, ond i'r rhai sy'n dysgu'r iaith ac ar gyfer eraill sydd efallai yn deall ychydig eiriau yn unig. Mae sgwrsio gyda chynulleidfaedd yn y Gymraeg, yn ogystal ag yn Saesneg, yn dangos parch tuag at siaradwyr Cymraeg a dealltwriaeth wirioneddol o'r ffocws o'r newydd ar yr iaith ym mhob rhan o Gymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gefnogi'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gall pawb sy'n gweithio ar gyfer Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth chwarae rôl wrth helpu i gyflawni'r targed hwnnw, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei weld a'i chlywed yn ein cynnwys ac yn ein gweithgareddau.

Mae'r canllaw yma wedi'u datblygu mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a'r bwriad yw i'ch galluogi i ystyried ymgorffori'r Gymraeg yn eich strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'n ganllaw ymarferol sy'n anelu at eich helpu chi a'ch timau i ehangu eich darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y Deyrnas Unedig.



## Ymgynghoriadau

Wrth gyflwyno polisiâu, mentrau a gwasanaethau newydd, fe ddylech chi sicrhau fod y broses yn gyson â chynllun iaith Gymraeg eich adran neu eich sefydliad.

Dylai'r broses ategu defnyddio'r Gymraeg a helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Dylai dogfennau ymgynghori sy'n berthnasol i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys dogfennau ar wefannau a deunyddiau wedi eu hargraffu. Mae rhai cynlluniau iaith yn cynnwys fframwaith penodol i helpu i asesu os ddylid cyhoeddi dogfennau ymgynghori yn Gymraeg.

Dylai'r cyhoedd allu ymateb i ymgynghoriadau sy'n berthnasol i Gymru, yn eu dewis iaith. Mae hyn yn golygu y gellid bod angen rhoi prosesau ar waith i sicrhau y gellir derbyn a chyfieithu ymatebion yn briodol.

Dylai sefydliadau hefyd ystyried agweddau'r effaith bosibl ar y Gymraeg mewn unrhyw bolisi sy'n destun ymgynghoriad.

Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Byddai'r penderfyniad polisi yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy?;
- Byddai'r penderfyniad polisi yn annog / hwyluso cyflogi siaradwyr Cymraeg?;
- Byddai'r penderfyniad polisi yn rhoi cynnig gweithredol o wasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr?;
- Byddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at strategaethau'r iaith Gymraeg yng Nghymru a meysydd polisi penodol e.e. [strategaeth Cymraeg 2050?](#)

## Rhestr wirio ar gyfer ymgynghoriadau

- Yn gyson â chynllun iaith Gymraeg y sefydliad
- Dogfennau ymgynghori dwyieithog ar y wefan ac wedi eu hargraffu
- Y gallu i ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg
- Proses i ddelio ag ymatebion yn y ddwy iaith
- Wedi ystyried yr effaith ar bolisiâu

## Digwyddiadau

Wrth gynnal digwyddiadau neu gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, dylid cymryd camau i sefydlu ymlaen llaw beth yw lefel y galw am gyfleusterau dwyieithog.

Dylid gwneud darpariaethau i sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn gallu cyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, a bod croeso iddynt wneud hynny.

Gall hyn olygu adolygu'r agenda i gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Os ydych chi'n bwriadu paratoi unrhyw lenyddiaeth mewn cysylltiad â digwyddiadau cyhoeddus, dylech gyhoeddi'r rhain yn ddwyieithog.

Dylech hefyd wahodd unigolion i roi gwybod i chi ymlaen llaw ym mha iaith maen nhw'n bwriadu cymryd rhan. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar y rhanbarth lle mae eich digwyddiad yn cael ei gynnal, a dylai eich helpu i benderfynu a oes angen cyfleusterau cyfieithu ar y pryd. Ffafrir cyfieithu ar y pryd yn hytrach na chyfieithu olynol, gan y bydd digwyddiadau'n cymryd yn hirach i'w cwblhau fel arall.<sup>1</sup>

Yn ychwanegol at gyfleusterau cyfieithu, dylai sefydliadau asesu'r angen i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd a delio ag ymholiadau.

Os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, mae'n bosibl yr hoffech chi ystyried llogi gwasanaethau rhywun addas yn benodol ar gyfer y digwyddiad.

Fel arall, gallai cyfieithydd eich cynorthwyo gyda dyletswyddau eraill ar y diwrnod.

Wrth ddylunio sleidiau cyflwyniadau, mae cynnwys y ddwy iaith ar yr un sleid yn arfer da, gan ei fod yn cynnig dewis iaith i'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw geiriad pob sleid mor gryno â phosibl a sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd, ac nad yw'r cynnwys yn llethol nac yn ddryslyd.

---

<sup>1</sup> Mae gwybodaeth bellach ar gael yn adran 3 o'r ddogfen cyngor Comisiynydd y Gymraeg– [Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb](#)

## Rhestr wirio ar gyfer digwyddiadau

**Gweladwy** - *Sut gallwch chi sicrhau bod Cymraeg yn weladwy cyn ac yn ystod eich digwyddiad?*

- Gwahoddiadau
- Deunyddiau e.e. taflenni, sleidiau cyflwyniadau, tocynnau, eitemau arddangos
- Rhaglen ac agendâu digwyddiadau
- Posteri / baneri cyhoeddusrwydd / hysbysebion
- Arwyddion – cyfeirio / yn y digwyddiad

**Clywadwy** - *Sut gallwch chi sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed yn eich digwyddiad?*

- Annog staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr yn Gymraeg e.e. ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg mewn mannau lle byddant yn cyfarch ymwelwyr
- Defnyddio'r Gymraeg ar yr uchelseinydd ac wrth wneud cyhoeddiadau
- Defnyddio Cymraeg o'r llwyfan – defnyddio cyfranwyr neu hwyluswyr Cymraeg lle bo'n briodol
- Sicrhau bod rhywun at gael i wneud cyfweiliadau â'r cyfryngau yn Gymraeg

### **Beth arall?**

- Marchnata'r digwyddiad yn ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol - defnyddio hashnod dwyieithog
- Datganiadau dwyieithog i'r cyfryngau – gan gynnwys targedu'r cyfryngau Cymraeg
- Sôn wrth unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau ar eich rhan cyn neu ar ôl y digwyddiad i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Archebwch gyflenwad o fathodynau 'laith Gwaith' a laniardiau i siaradwyr Cymraeg eu gwisgo
- A oes Cymraeg ar eich logo neu eich brandio?
- A ydych chi'n creu nwyddau ar gyfer y digwyddiad, ac os ydych chi, a yw'r nwyddau hynny'n ddwyieithog?
- A ydych chi angen trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer rhai sesiynau?



## Ymgyrchoedd

Wrth ddylunio ymgyrchoedd gyda chynulleidfaoedd Cymru mewn golwg, mae'n bwysig nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hi hefyd yn bwysig bod ymagwedd gyson ar draws yr holl ddeunyddiau ymgyrchu.

Darperir rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach yn yr arweiniad hwn yn ymwneud â drafftio a chynnwys Gymraeg yn eich deunydd cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fideos, GIFs ac animeiddio.

[Ceir rhagor o wybodaeth am arferion da dylunio dwyieithog ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.](#)

### Cynllunio

Mae cynllunio da yn hanfodol ar gyfer ymgyrchoedd dwyieithog o safon. Dylai pawb sy'n gweithio ar yr allbwn fod yn ymwybodol o'r cychwyn y bydd y cynnyrch gorffenedig yn cynnwys y ddwy iaith.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dylunwyr a chrewyr cynnwys yn ymwybodol er mwyn gwneud darpariaethau i gynnwys y ddwy iaith mewn unrhyw gynnyrch gweledol neu ddrafftiau.

Yna, gellir dewis y ffont, y cynllun, y fformat ac ati fel bo'n briodol. Yn ddelfrydol, dylai'r dylunydd ddechrau gyda'r testun yn y ddwy iaith, ac felly mae angen neilltuo digon o amser ymlaen llaw ar gyfer cyfieithu a phrawfddarllen.

### Ysgrifennu deunydd dwyieithog

Nid yw ysgrifennu deunydd dwyieithog yr un fath â chyfieithu, ac mae deunydd hysbysebu byr a bachog yn aml yn llawer anoddach i'w gynhyrchu mewn dwy iaith.

Dylech wirio a yw'r cyfieithwyr yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn, neu gomisiynu awdur deunydd dwyieithog i ddrafftio'r testun yn y ddwy iaith. Mae drafftio dwyieithog yn aml yn gwella'r mynegiant yn y ddwy iaith.

### Teiposod a dylunio

Lle bo'n briodol dewis ffurfdeip gwahanol ar gyfer pob iaith, ni ddylech ddefnyddio ffurfdeip anarferol neu addurniadol ar gyfer un iaith os ydych chi eisiau trin y ddwy iaith yn gyfartal.

Dylid osgoi ffontiau gydag esgynyddion a disgynyddion hir yn yr un modd â'r rhai sy'n rhy grwn neu onglog oherwydd amlder llythrennau llydan fel 'w' ac 'y' a llythrennau dwbl fel 'dd' yn Gymraeg. Mae'n rhaid i'r ffont a ddefnyddir

ddarparu ar gyfer yr wyddor Gymraeg yn llawn (gan gynnwys y nodau deiacritig).

Mae'r llythyren 'i' yn aml yn cael ei defnyddio ar ei phen ei hun mewn testun Cymraeg, ac ni ddylid byth ei throi'n llythyren fawr oni bai ei bod yn dod ar ddechrau brawddeg. Mae'n bwysig gwirio bod y llythrennau 'I' ac 'II' wedi cael eu defnyddio'n gywir, gan fod y llythyren fawr 'i' yn aml yn cael ei defnyddio'n anghywir.

Dylid defnyddio ffontiau sydd ar gael yn gyffredin (h.y. UTF-8 serif a heb serif i sicrhau cydweddiad wrth drosglwyddo testun i raglenni eraill, gan gynnwys cyfieithu.

## **Gwahanu ieithoedd**

### **Lliwiau**

Y ffordd orau o ddefnyddio lliwiau i wahanu ieithoedd yw rhoi testun y ddwy iaith yn ddu, a rhoi lliw neu arlliw gwahanol y tu ôl i un o'r ieithoedd. Gellir gwneud hyn mewn dogfennau unlliw a dogfennau lliw llawn. Mae gwyrddroi lliwiau hefyd yn ddewis, yn enwedig o ran arwyddion.

Fel arall, gellir pennu lliw gwahanol ar gyfer testun yn yr ieithoedd gwahanol. Dylid cyfyngu hyn i deitlau, isdeitlau, pwyntiau bwled a phenawdau, gan fod darllen darnau hir o destun lliw yn gallu bod yn flinedig, ac yn gallu bod yn anodd i rai â nam ar eu golwg.

### **Cynllun**

Mae sawl ffordd y gellir cyfuno testun Cymraeg a Saesneg mewn dogfennau wedi eu hargraffu ac ar-lein, gan gynnwys taflenni, ffurflenni ac adroddiadau. Mae'n arfer dda i osod y Gymraeg ble mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Pa bynnag fformat a ddewisir, yr ystyriaeth bwysicaf yw y dylai fod yr un mor hawdd darllen un iaith ag un arall. Lle bo'n bosibl, dylai'r ddwy iaith fod yn hygyrch ar yr un llinell wrth edrych ar y testun.

Mae'n bwysig nad yw'r ddwy iaith yn cael eu cymysgu mewn ffordd anghyson neu ar hap, ac mae'n hanfodol bod y ddwy iaith yn cael eu gwahanu a bod modd sylwi ar yr ieithoedd yn hawdd.

Yn aml, gall mwy nag un ateb fod yn briodol: bydd ymgynghori â dylunydd digon medrus yn helpu i egluro'r dewisiadau sydd ar gael.

[Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o ffontiau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin, gan gynnwys colofnau cyfochrog, tudalennau cyfochrog, darnau fesul bloc, o'r brig i'r gwaelod, cefn yn gefn a throi a throelli ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.](#)

## **Hysbysebu ac arwyddion**

Bydd y rheolau dylunio cyffredinol a amlinellwyd yn gynharach ynghylch defnyddio lliw, ffurfdeipiau ac ati yn gymwys, ond os bydd lle'n brin, yna bydd angen bod yn greadigol i gadw'r testun mor gryno â phosibl.

### **Hysbysebion wedi eu hargraffu**

Mae'n bosibl na fydd angen archebu mwy o le ar gyfer hysbyseb nag y byddai rhywun yn ei wneud ar gyfer hysbyseb uniaith.

Os oes angen, mae'n debygol y bydd yn rhatach dylunio a chyhoeddi un hysbyseb dwyieithog na rhoi dau hysbyseb ar wahân yn y naill iaith a'r llall.

### **Hysbysebu yn yr awyr agored**

Mae defnyddio posteri mawr ar arddangosfyrddau neu safleoedd awyr agored eraill yn drawiadol ac yn denu sylw, gan gynnig ateb hawdd i unrhyw sefydliad sydd eisiau dangos ymrwymiad o ddifri i ddwyieithrwydd. Mae hi fel arfer yn bosibl cyflwyno ail iaith ar ymgyrch bosteri heb gost ychwanegol.

Mae'r gallu i ysgrifennu testun dwyieithog da yn hanfodol, er hynny, gan mai'n anaml y mae cyfieithiadau uniongyrchol o destun byr a bachog neu benawdau yn gweithio'n dda.

### **Hysbysebion marchnata a baneri ar gyfer gwefannau**

Wrth baratoi deunyddiau marchnata ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol, dylid cadw mewn cof bod angen i'r rhain fod yn ddwyieithog hefyd. Dylid sicrhau bod unrhyw ffurfdeip a ddefnyddir yn gallu dygymod â llythrennau Cymraeg unigryw.

## **Costau**

Mae rhai o'r pwyntiau i'w cadw mewn cof yn cynnwys:

- Nid oes angen i arwydd (neu hysbysfwrdd) dwyieithog fod ddwywaith maint fersiwn uniaith
- Bydd mwyafrif cost cynhyrchu'r arwyddion yn talu am y deunyddiau neu am gost y lle yn achos poster
- Mae'n bosibl y bydd angen i ffurflen ddwyieithog gadw at faint safonol, ac yn yr achos hwnnw mae'n bosibl y bydd angen i'r dylunydd ddod o hyd i ateb i'r broblem prinder lle
- Mae'n bosibl argraffu dogfennau dwyieithog byr, fel llythyrau, ar y ddwy ochr, gan arbed gwariant ar bapur
- Bydd dogfennau hirach fel arfer yn ddwywaith y maint o'i cynhyrchu'n ddwyieithog, ac mewn achosion o'r fath bydd y dewis o bapur, lliw, ffotograffau a darluniau yn helpu i leihau costau

## Cynnwys gwefan GOV.UK

Yn yr un modd â phob deunydd dwyieithog, mae'r egwyddorion yn syml: dylid cynllunio ar gyfer deunydd dwyieithog o'r dechrau, a dylai'r defnyddiwr allu dewis iaith.

Dylai gwybodaeth sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru fod ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys tudalennau sefydlog a rhyngweithiol gwefan GOV.UK.

Gyda hyn mewn cof, dylid cynnwys fersiynau Cymraeg o dudalennau ar yr un pryd â'r rhai Saesneg lle bo'n bosibl. Mae hyn yn galluogi darllenwyr i newid yn rhwydd o un iaith i'r llall ar bob tudalen.

Ni ddylid cymysgu'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un tudalennau gwe, gan y gall hynny amharu ar feddalwedd a ddyluniwyd i gynyddu hygyrchedd, fel darllenwyr sgriniau.

Dylid cynnal adolygiadau o gynnwys yn rheolaidd i sicrhau bod cynnwys Cymraeg priodol ar gael. Bydd hyn yn eich galluogi i ddatblygu cynlluniau i gynyddu swm ac ansawdd cynnwys Cymraeg.

[Mae cynllun iaith Gymraeg Swyddfa'r Cabinet](#) yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau digidol a gwefan GOV.UK. Mae'r cynllun iaith hefyd yn cadarnhau cyfrifoldebau iaith Gymraeg Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a sefydliadau'r Llywodraeth o ran cynnwys ar GOV.UK.

## Datganiadau i'r wasg ac ymdrin â'r wasg

Yn yr un modd â'r arweiniad uchod, dylai datganiadau i'r wasg sy'n cael effaith ar y cyhoedd yng Nghymru ac sy'n cael eu hanfon at y wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

Dylid rhoi'r rhain ar wefan GOV.UK yn Gymraeg a Saesneg.

Dylid nodi llefarwyr Cymraeg fel rhan o'r camau cynllunio cynnar, a dylent fod ar gael i gymryd rhan mewn cyfweiliadau Cymraeg ar y cyfryngau.

## **Rhestr wirio ar gyfer ymgyrchoedd**

### ***Cynllunio ymlaen llaw***

- Trin y ddwy iaith yn gydradd
- Crewyr cynnwys i fod yn ymwybodol o'r elfen ddwyieithog

### ***Ysgrifennu testun dwyieithog***

- Ymgynghori ag awdur testun dwyieithog
- Prawfddarllen y cynnwys

### ***Teiposod a dylunio***

- Dim ffurfdeipiau anarferol neu addurnol
- Dewis ffontiau priodol ar gyfer y Gymraeg
- Dewis priodol o gynllun a fformat gwahanu'r ieithoedd

### ***Hysbysebu ac arwyddion***

- Ystyried hysbysebion dwyieithog yn lle dwy fersiwn ar wahân
- Defnyddio geiriad cryno ac ymgynghori ag awdur testun
- Ystyried canllawiau ar ffurfdeipiau a dylunio

### ***Cynnwys gwefan GOV.UK***

- Gwybodaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- Llwytho cynnwys i fyny i'r wefan yn ddwyieithog yr un pryd
- Cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnwys

### ***Datganiadau i'r cyfryngau ac ymdrin â'r cyfryngau***

- Cyhoeddi datganiadau yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol i gynulleidfaoedd yng Nghymru
- Nodi llefarwyr Cymraeg ar gyfer cyfweiliadau

## Cyfryngau cymdeithasol

Mae defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol:

- yn darparu cyfleoedd i estyn allan a chadw cefnogaeth cynulleidfaoedd newydd
- yn eich galluogi i dargedu cynulleidfa benodol
- yn cryfhau hawliau defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg

### Cynllunio ymmlaen llaw

Gall cyfathrebu'n ddwyieithog olygu y bydd angen i chi ddylunio eich cynllun cyfryngau cymdeithasol ymlaen llaw, gan feddwl am y math o negeseuon fydd yn cael eu rhannu o'r cychwyn cyntaf i sicrhau eu bod yn cael eu paratoi yn y ddwy iaith.

Gall hyn olygu archwilio cynllun marchnata digidol eich sefydliad o'r newydd a sicrhau eich bod chi'n cynnwys y Gymraeg. Mae'n llawer mwy effeithiol o ran amser a chost i sicrhau bod defnyddio'r Gymraeg yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gynllun marchnata o'r cychwyn cyntaf.

Mae'n werth ystyried hefyd pwy fydd yn gyfrifol am greu a chynllunio'r negeseuon, a fydd ganddyn nhw'r sgiliau ieithyddol i greu cynnwys dwyieithog neu a fydd angen i chi drefnu bod cyfieithydd ar gael.

### Creu negeseuon dwyieithog

Y ffordd hawsaf a mwyaf cost-effeithiol o greu testun dwyieithog cryno ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yw annog creu negeseuon dwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Gall hyn gynnwys defnyddio sgiliau Cymraeg gweithwyr neu gysylltu â gwasanaeth cyfieithu proffesiynol ymlaen llaw. Mae'n bosibl yr hoffech chi drefnu i gyfarfod neu ffonio cyfieithwyr ymlaen llaw i feithrin perthynas a sicrhau eu bod nhw'n deall arddull eich sefydliad.

Dylai hyn eich helpu chi i sicrhau bod negeseuon yn glên a phersonol yn y ddwy iaith, gan olygu bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i gyd yn gallu deall eich cynnwys. Byddai'r cyfieithwyr hefyd yn gallu cynnig gwasanaeth prawffddarllen.

Dylech hefyd sicrhau bod gennych chi broses ar waith fel bod modd i chi ymateb i unrhyw gais neu gwestiwn Cymraeg.

## **Creu cynnwys i bobl eraill**

Os ydych chi'n bwriadu cynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru yn eich ymgyrch, dylech fod yn ymwybodol bod nifer yn gofyn am wybodaeth a chynnwys dwyieithog er mwyn eu rhannu â'u cynulleidfaoedd.

Gall hyn olygu gweithio gyda nhw i olygu a chyfieithu asedau ymlaen llaw neu ddarparu fersiynau gwag o'r cynnwys dynodedig er mwyn iddynt gyfieithu testun eu hunain.

## **Ymgorffori'r Gymraeg yn eich porthiant**

Mae'n bosibl cael porthiant dwyieithog gyda chymysgedd o gynnwys Cymraeg a Saesneg, ond dewis arall yw cael un porthiant Cymraeg a un porthiant Saesneg.

Pa bynnag un fyddwch chi'n ei ddewis, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd ac eich bod chi'n gweithredu ateb ymarferol, sy'n gweithio i'ch sefydliad.

Yn ddelfrydol, dylai negeseuon yn y ddwy iaith ymddangos o fewn yr un amserlen, a bod y profiad a'r negeseuon o safon debyg. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod angen i'r cynnwys fod yn gyfieithiad uniongyrchol. Yn aml, mae'r cynnwys mwyaf creadigol a deniadol yn amrywio o ran ei eiriau, ond mae'r negeseuon allweddol yn cyrraedd yr un safon.

Os yw eich sefydliad yn rheoli sawl cyfrif cyfryngau cymdeithasol, dylech sicrhau bod y sianelau mwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa darged yn cael eu cynnwys yn eich cynllun cynnwys.

## **Cyfieithiadau awtomataidd neu drwy beiriant**

Er bod meddalwedd cyfieithu awtomataidd wedi datblygu'n fawr dros y blynyddoedd, ni ellir dibynnu arno'n llwyr, gan fod nifer o straeon newyddion proffil uchel wedi amlygu ei wendidau.

Byddem yn eich cynghori i beidio â dibynnu ar y math hwn o feddalwedd am gyfieithiadau cyflym a hawdd. Gellid ei ddefnyddio i ddarparu cyfieithiadau bras, ond mae'n rhaid pwysleisio na ddylech chi ddefnyddio cyfieithiad awtomataidd heb sicrhau ei fod wedi cael ei is-olygu'n drylwyr.

## **Fideos a chynnwys wedi ei animeiddio**

Mae'n arfer da i geisio canfod cyfwelwyr / cyflwynwyr sy'n siarad Cymraeg i greu fideos, GIFs ac animeiddiadau mewn Cymraeg a Saesneg, yn hytrach na defnyddio isdeitlau. Ble nad yw hynny'n bosibl, gellir ddefnyddio is-deitlau

- er enghraifft, darparu isdeitlau Saesneg ar gyfer cyfraniadau Cymraeg neu fel arall.

Wrth recordio unigolion sy'n siarad Cymraeg, nid oes angen i chi ofyn iddynt ail-recordio eu cyfraniadau yn Saesneg, dim ond defnyddio isdeitlau Saesneg. Mae hefyd yn bosibl defnyddio meddalwedd sy'n hwyluso is-deitlo.

Wrth lunio negeseuon, mae'n werth ystyried pa hasnodau y gellid eu defnyddio sy'n cynnwys y ddwy iaith.



## **Rhestr wirio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol**

### ***Cynllunio ymlaen llaw***

- Cynllun cyfryngau cymdeithasol ymlaen llaw

### **Creu negeseuon dwyieithog**

- Creu negeseuon dwyieithog o'r cychwyn cyntaf
- Gwirio cyfieithiadau peiriant neu gysylltu â gwasanaeth cyfieithu ymlaen llaw
- Cwrdd â chyfieithwyr neu eu ffonio i feithrin perthynas â nhw
- Defnyddio gwasanaeth prawf ddarllen
- Proses i ymateb i geisiadau neu gwestiynau Cymraeg

### ***Ymgorffori'r Gymraeg yn eich porthiant***

- Mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd
- Mae negeseuon yn y ddwy iaith yn ymddangos yr un pryd
- Mae negeseuon o'r un safon â'i gilydd, ond nid ydyn nhw'n gyfieithiadau uniongyrchol
- Dewis y sianeli mwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa darged
- Fideos gydag isdeitlau yn yr iaith darged
- Hashnodau

## Astudiaethau achos

Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda sefydliadau i greu astudiaethau achos o arfer llwyddiannus, er mwyn galluogi sefydliadau eraill i drosglwyddo'r arferion hyn i gweithleoedd eu hunain. [Mae gan y Comisiynydd tudalen 'Arferion Llwyddiannus' ar eu gwefan](#) sy'n cynnwys nifer o astudiaethau achos ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys hunan-reoleiddio, gweithio ar y cyd, y gweithlu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

Bydd y dudalen hon yn dangos arferion llwyddiannus newydd wrth i'r Comisiynydd dod ar draws arferion o'r fath tra'n cyflawni dyletswyddau rheoleiddiol. Felly bydd yn fuddiol i ailedrych ar y dudalen hon yn rheolaidd.

## Gwerthuso cyfathrebu dwyieithog

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod darparu gohebiaeth ddwyieithog yn galluogi sefydliadau i feithrin ymddiriedaeth ymysg yr holl gynulleidfaoedd yng Nghymru, ond hefyd yn rhoi hawliau cadarnach i ddefnyddwyr a mynediad at wasanaethau.

Wrth werthuso cyfathrebu dwyieithog yn unol â [Fframwaith Gwerthuso GCS](#), mae'n bwysig cofio y bydd lefel yr ymgysylltu â chynnwys Cymraeg yn ddiamau yn is na chynnwys Saesneg oherwydd maint y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, dylid rhoi pwyslais ar fesur effaith cyfathrebu o ran mynediad at gynulleidfaoedd newydd a meithrin perthynas â nhw.

Mae'n llawer pwysicach mesur eich gallu i gyrraedd a dylanwadu ar gynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg, fel yr amlinellwyd yn eich cynllun ymgyrchoedd, gan roi sylw penodol i'r effaith o fewn ardaloedd daearyddol penodol.

## Offer ac adnoddau defnyddiol

- [Comisiynydd y Gymraeg](#) - Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau cyngor sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar ei waith. Isod mae lincs i'r dogfennau hynny:
- [Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb](#)
- [Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg](#)
- [Recriwtio](#)
- [Gosod contractau ar gyfer Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
- [Cymraeg – gwefan Llywodraeth Cymru](#) - Gwybodaeth am fyw bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys busnes, treftadaeth, dysgu Cymraeg, addysg ac adnoddau
- [Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru](#) - Y gymdeithas broffesiynol genedlaethol ar gyfer cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg
- [Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#) - Darparwyr gwersi Cymraeg ledled Cymru. Cydlynu rhaglen Cymraeg Gwaith sy'n cynnig hyfforddiant Cymraeg wedi ei gyllido i'r gweithlu.
- [Cysill ar-lein](#) - Gwiriwr gramadeg Cymraeg ar-lein am ddim
- [Porth Termau](#) - Peiriant chwilio am derminoleg Gymraeg ar-lein
- [Byd Term Cymru](#) – adnoddau cyfieithu Llywodraeth Cymru